



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 6 Mawrth 2014
Tabled on 6 March 2014

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Social Services and Well-being (Wales) Bill

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

Angela Burns

5

Section 164, page 110, after line 8, insert—

- ‘() Where the Welsh Ministers exercise their power of direction under subsection (1) they must within 21 days of the giving of the direction—
- (a) report to the National Assembly for Wales that the power has been exercised, and
 - (b) lay a copy of the direction before the National Assembly for Wales.’.

Adran 164, tudalen 110, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

- ‘() Pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i roi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) rhaid iddynt, o fewn 21 diwrnod o roi’r cyfarwyddyd—
- (a) adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fod y pŵer wedi cael ei arfer, a
 - (b) gosod copi o’r cyfarwyddyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.’.

Angela Burns

6

To insert a new section –

‘() Adoption service: reporting

Insert after section 3 of the Adoption and Children Act 2002 –

“3B Wales - reporting

The Welsh Ministers must, no later than 31 December 2015, report to the National Assembly for Wales on adoption services in Wales.”.

I fewnosod adran newydd –

‘() Gwasanaeth mabwysiadu: adrodd

Ar ôl adran 3 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 mewnosoder –

“3B Wales - reporting

The Welsh Ministers must, no later than 31 December 2015, report to the National Assembly for Wales on adoption services in Wales.”.

Darren Millar

7

Section 6, page 7, line 14, leave out subsection (4).

Adran 6, tudalen 7, llinell 13, hepgorer is-adran (4).

Darren Millar

8

To insert a new section –

‘() Other overarching duties: UN Principles and Convention

- (1) A person exercising functions under this Act in relation to an adult falling within section 6(1)(a) or (b) must have due regard to the United Nations Principles for Older Persons adopted by the General Assembly of the United Nations on 16 December 1991.
- (2) A person exercising functions under this Act in relation to a child falling within section 6(1)(a), (b) or (c) must have due regard to Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child adopted and opened for signature, ratification and accession by General Assembly resolution 44/25 of 20 November 1989 (“the Convention”).
- (3) For the purposes of subsection (2), Part 1 of the Convention is to be treated as having effect –
 - (a) as set out for the time being in Part 1 of the Schedule to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, but
 - (b) subject to any declaration or reservation as set out for the time being in Part 3 of that Schedule.
- (4) Subsection (2) does not apply to the Welsh Ministers (see, instead, the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011).’.

I fewnosod adran newydd –

‘() Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

- (1) Rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn sy’n dod o fewn adran 6(1)(a) neu (b) roi sylw dyladwy i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991.
- (2) Rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn sy’n dod o fewn adran 6(1)(a), (b) neu (c) roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i’w lofnodi, ei gadarnhau a’i gytuno drwy benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig 20 Tachwedd 1989 (“y Confensiwn”).
- (3) At ddibenion is-adran (2), mae Rhan 1 o’r Confensiwn i’w thrin fel pe bai’n cael effaith –
 - (a) fel a nodir am y tro yn Rhan 1 o’r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ond
 - (b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel a nodir am y tro yn Rhan 3 o’r Atodlen honno.
- (4) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i Weinidogion Cymru (gweler, yn lle hynny, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011).’.

Darren Millar

9

Section 72, page 54, line 31, leave out ‘section 6(5) (overarching well-being’ and insert ‘sections 6(2), and (5) and (section to be inserted by amendment 8)(2) (other overarching’.

Adran 72, tudalen 54, llinell 34, hepgorer ‘adran 6(5) (dyletswyddau hollgyffredinol ynghylch llesiant’ a mewnosoder ‘adrannau 6(2) a (5) a (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 8)(2) (dyletswyddau hollgyffredinol eraill’.